# CYNGOR CYMUNED BETHESDA
# BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo*
*A'n braint yw gwarchod ein bro"*

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Bethan Roberts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cygnor a gynhaliwyd dros Zoom
**Nos Iau 30 Mawrth 2023**

**PRESENNOL:**

**Ward Ogwen**
Y Cynghorydd Gwilym Owen
Y Cynghorydd Mary Jones
Y Cynghorydd Neville Hughes
Y Cynghorydd Catrin Wager

**Ward Gerlan**
Y Cynghorydd Bleddyn Williams
Y Cynghorydd Dyfrig Jones
Y Cynghorydd Ann Williams
Y Cynghorydd Einir Williams

**Ward Rachub**
Y Cynghorydd Michael Williams
Y Cynghorydd Walter Williams
Y Cynghorydd Huw Jones

**Cynghorydd Sir**
Y Cynghorydd Paul Rowlinson

1. **Croesawyd** pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Cyng. Dyfrig Jones.

**Ymddiheuriadau** – y Cyngr. Linda Brown a Rheinallt Puw.

Cafwyd sgwrs gyda Huw Davies, Rheolwr Prosiect Dyffryn Gwyrdd ynglyn a cais 'Dyffryn Caredig' sydd yn gael ei gyflwyno ar y 9fed o Fehefin, 2023. Eglurwyd mai bwriad y cais i gronfa Arian i Bawb y Loteri yw ymestyn y gwaith trafnidiaeth cymunedol trydan sydd wedi'i gyflawni gan y Dyffryn Gwyrdd ers Awst 2020. Nodwyd eu bod yn ymgynghori ar hyn o bryd, a gofynwyd yn garedig i'r aelodau gwblhau'r holiadur. Diolchwyd Huw am y cyfle i gyflwyno i'r Cyngor ac yn awyddus i gael cefnogaeth y Cyngor digwyddiadau lleol dros yr wythnosau a misoedd nesaf.

**2. Datgan Diddordeb**
Pwyllgor Codi Arian Eisetddfod Genedlaethol Llyn ac Eifionnydd – Cyngr. Neville Hughes, Mary Jones, Walter Williams a Linda Brown.

**3. Materion Brys**
Dim.

**4. Cofnodion**
Nodwyd fod angen addasu'r brawddeg yn eitem 10(a) "...plant sydd tu allan i'r dalgylch." i "...plant o fewn y dalgylch". Yn dilyn yr newidiadau yma, cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Chwefror 2023.

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion**
**5.1 YGC – Sherpa Shelters** – Y Clerc wedi holi os oes bosib gosod y sgrin gyda'r amserlen yn y lloches metel presennol ger yr Hen Bost. Y Clerc wedi holi am ddiweddariad, dim ymateb hyd yn hyn.

**5.2 Golau Stryd Llidiart y Gwenyn** – Derbyniwyd amcanbris i osod goleuadau gan Cyngor Gwynedd ar y safle – rhwng £8,000 - £9,000. Nodwyd unwaith eto fod yr ffordd yma heb gael ei fabwysiadawy ac yn ffordd breifat. Y Clerc i edrych ar y Cofrestra Tir i weld pwy sydd yn berchen y tir hwn.
**5.3 'Parallel Bars' ar gyfer Cae Chwarae Rachub** - Y Clerc wedi derbyn dyfynbrisiau, gyda'r pris gorau gan AMV Playgrounds. Y Clerc i archebu'r offer, ac i drefnu i contractwr lleol i ymgymryd a'r gwaith gosod pan ddaw yr offer.

**6. Lloches Bws Lon Newydd**
Y Clerc wedi derbyn dyfynbris am y lloches gan Macemain & Amstad – penderfynwyd archebu'r lloches bws a gofyn i'r contractwr fynd ymlaen i wneud sylfaen concrit ac i osod y lloches.

**7. Cau'r Ffordd – Sgwar Rachub**
Nodwyd y Cyng. Mike Williams ei fod wedi derbyn llawer o gwynion gan drigolion lleol ynglyn a'r gwaith brys cau'r ffordd yn Rachub yn ddiweddar. Nodwyd fod y trigolion lleol heb dderbyn unrhyw fath o gyfathrebu gan Scottish Power nag gan Gyngor Gwynedd am cau'r ffordd hwn. Eglurwyd fod dim trefn hefo cau'r ffordd, gyda ceir ymhob man. Y Clerc i lythyru Scottish Power a Cyngor Gwynedd i dynnu sylw at yr anrhefn a'r materion a godwyd, ac i ofyn am esboniad ac i gael sicrhad na fydd hyn yn diwgydd eto yn y dyfodol.

**8. Pwyllgor Codi Arian – Eisteddfod Genedlaethol Llyn ac Eifionydd 2023**
Nodwyd fod y Cyngor wedi rhoid £500 o gyllid 2022-23 yn barod at yr apêl. Penderfynwyd rhoid £500 ychwanegol o gyllid 2023-24.

**9. Maes Parcio Gerlan**
Dim diweddariad pellach, disgwyl i pryniant y tir gael ei gwblhau.

**10. Gohebiaeth**
Roedd pawb wedi derbyn copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Mawrth 2023'
**10.1** Un Llais Cymru – Aelodaeth 2023-24 – Penderfynwyd ymaelodi eto eleni, y Clerc i drefnu.
**10.2** Alun Davies – Llechi Barddoniaeth Parc Meurig – Penderfynwyd cefnogi'r prosiect hwn.
**10.3** Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen – Cais am rhodd – Penderfynwyd rhoi rhodd o £500 tuag at yr eisteddfod.
**10.4** Rhys Wheldon Roberts – Gosod Mainc Eistedd – Penderfynwyd cefnogi'r syniad o gael mainc eistedd ym Mhantdrieniog – y Clerc i ymateb i Rhys gan nodi fod y tir mewn sylw yn berchen i Cyngor Gwynedd.

**11. Penderfyniadau a Ceisiadau Cynllunio**
**<u>Penderfyniadau</u>**

| | |
|---|---|
| **C22/0256/13/LL**<br>Brig y Nant, Lon Newydd Coetmor | Codi 18 tŷ, ffordd newydd a thirlunio<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |
| **C22/1054/13/AC**<br>88 Ffordd Carneddi, Carneddi | Cais i ddiwygio amod 2 (Cynlluniau a gymeradwywyd) o ganiatâd cynllunio C19/0546/13/LL ar gyfer codi tŷ newydd er mwyn caniatáu diwygiadau i'r dyluniad a gosodiad. |

**Penderfyniad:** Caniatawyd gydag amodau.

**C22/1039/13/DT**
1 Rallt Uchaf, Gerlan

Codi porth mynediad blaen newydd a modurdy ar ochr yr eiddo
**Penderfyniad:** ar y gweill.

**C23/0012/13/DT**
38 Erw Lâs, Bethesda

Estyniad arfaethedig i gefn, ochr ac blaen yr eiddo yn ogystal a newidiadau parcio ac mynediad i gerbydau.
**Penderfyniad:** Caniatawyd gydag amodau.

**C22/0811/13/LL**
Clwb Pel Droed, High Street,

Adeiladu maes hyfforddi pob tywydd 3G gyda ffensys a goleuadau cysylltiedig.
**Penderfyniad:** ar y gweill.

**C23/0073/13/DA**
Plot 3, Yr Ardd, Gerlan

Diwygiad ansylweddol i'r cynlluniau a `gymeradwywyd drwy ganiatad cynllunio C16/0007/13/ll a C21/0682/13/AC ar gyfer codi ty deulawr er mwyn codi annedd mwy.
**Penderfyniad:** ar y gweill.

**<u>Ceisiadau</u>**

**12. Taliadau**

| | | |
|---|---|---|
| D E Williams | Gosod rhisgl Cae Chwarae Pantdreiniog | £1550.00 |
| Archwilio Cymru | Ffioedd Archwilio 2021/22 | £200.00 |
| IGR Electrical | Gosod goleuadau newydd - Gorffwysfan | £177.96 |
| Opus Energy | Trydan – Llys Dafydd | £89.70 |
| Scottish Power | Trydan - Goleuadau Nadolig | £88.30 |
| Scottish Power | Nwy - Gorffwysfan | £144.40 |
| Cyngor Gwynedd | Gwaith cynnal Mynwent Coetmor | £3010.27 |

| | | |
|---|---|---|
| John Wyn Jones | Cyflog mis Mawrth | £318.20 |
| CThEM | Treth Cyflog JWJ - Mawrth | £79.60 |
| Lwfans Blynyddol | Lwfans Blynyddol 2022-23 | £300.00 |
| CThEM | Treth Lwfans Blynyddol | £200.00 |
| Partneriaeth Ogwen | Costau rhedeg Llyfrgell | £1840.80 |
| Snowdonia Fire & Security | Gwasanaethu offer tân Gorffwysfan | £42.00 |